# Cyflwyniad i gymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant – canllaw i ddysgwyr/myfyrwyr



# CYNNWYS


Trosolwg o'r fframwaith 4

Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020 6

Cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 7

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? 7

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? 7

Gofynion cofrestru dysgwyr 7

Nodau ac amcanion 8

Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen? 8

Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod? 9

Strwythur y cymhwyster 10

Beth yw uned? 11

**Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am bob uned?** 12

Pa feysydd pwnc y byddaf yn dysgu amdanynt? 13

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i ennill y cymhwyster hwn? 14

Ffocws ar arweinyddiaeth 15

Ymgysylltu â chyflogwyr 16

Beth yw mentor yn y gweithle? 16

Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster? 17

Cam 1 – Cyn cyflwyno 18

Pa unedau y byddaf yn eu cwblhau? 19

Beth yw credydau? 20

Cam 2 – Cyfnod Dysgu 21

Parodrwydd ar gyfer asesiad – dangos cymhwysedd 23

Rhyddhau'r dasg 23

Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol 24

Sut bydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu? 25

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud? 26

Crynodeb o'r asesiad ar gyfer Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 27

Beth yw asesiad llafar? 28

Yn ystod yr asesiad llafar 28

Amseriadau 28

Cadw tystiolaeth 28

Cefnogi'r broses asesu 29

Cam 4 – Cwblhau 30

Dyfarnu'r cymhwyster 31

Ailgyflwyno 31

Sut ydw i'n cael fy nhystysgrif? 32

Pa gymorth sydd ar gael i mi? 33

Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau? 34

Symud ymlaen – beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato? 35

Symud Ymlaen Mewn Cyflogaeth 36

Symud ymlaen ar draws y sector ehangach 37

A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster? 38

Cyllid 38

Sut ydw i'n hoffi dysgu – Beth yw fy 'hoff' ddull dysgu? 39

# Trosolwg o'r fframwaith

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i godi safonau a sgiliau'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar wedi'i fynegi'n glir yng nghynllun **Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar (2017)**, yn enwedig eu hawydd i 'gefnogi rheolwyr pob lleoliad i anelu at a chyrraedd lefel 5' (tud. 15) gydag ymrwymiad i '...cefnogi'r sector drwy ddatblygu llwybrau dilyniant priodol i gyflawni'r cymwysterau hyn a chael mynediad i lwybrau hyfforddiant a gyrfa strwythuredig ' (tud. 15).[1]

O fewn y fframwaith o gymwysterau newydd, rhaid i'r daith tuag at rôl arwain a rheoli ddechrau gyda chwblhau **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**. Amlinellir y fframwaith newydd o gymwysterau isod.

Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru. Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer mawr o gymwysterau oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ymgeiswyr, teuluoedd a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC (**y Consortiwm**) i ddatblygu lleiafswm o 22 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant (gweler y darlun ar dudalen 6). Rydym wedi gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at y pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, a chyrff eraill ledled y DU, i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

[1] Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Cynllun Gweithlu (cyrchwyd ar 26 Mawrth 2020)

Gallwch ddarganfod mwy am adolygiad Cymwysterau Cymru yma:
https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

P'un a ydych yn yr ysgol neu goleg chweched dosbarth, yn gweithio neu'n astudio yn y coleg neu gyda darparwr yn y gweithle, mae'r gyfres o gymwysterau newydd wedi'i llunio i fodloni'ch anghenion. Maent ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch, ac yn darparu cyfleoedd i symud ymlaen, p'un a ydych yn ystyried symud ymlaen i gyflogaeth, yn chwilio am ddilyniant gyrfa neu'n gobeithio mynd i goleg neu brifysgol.

Mae adnoddau'r cymhwyster ar gael yn y Gymraeg a Saesneg. Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr am gwblhau eich cymhwyster yn Gymraeg. Mae deunyddiau cymorth ar gael ar-lein gan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, ac maent yn cynnwys:

- llawlyfr cymwysterau – gan gynnwys canllawiau ar gyfer pob uned unigol
- pecyn asesu.

# Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020

Mae'r canllaw i fyfyrwyr hwn yn canolbwyntio ar y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**. Rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf i gwblhau'r cymhwyster hwn. Mae'r fframwaith isod yn amlygu sut mae'r cymhwyster yn cyd-fynd â'r gyfres newydd o gymwysterau.

## Lefel 5

- City & Guilds – Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 4

- City & Guilds – Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
  1) Eiriolaeth Annibynnol
  2) Lleoliad Oedolion/Bywydau a Rennir
  3) Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
  **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 3

- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc) **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn fyw: Medi 20**
- cbac wjec – TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 20**
- cbac wjec – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 20**
- City & Guilds – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19**

## Lefel 2

- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Craidd*** **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: **Craidd*** **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19**

## Allwedd

- Seiliedig ar ymarfer (glas)
- Seiliedig ar wybodaeth (gwyrdd)
- * Argymhellir sefyll y cymhwyster Craidd cyn neu ar yr un pryd â Lefel 2 neu Lefel 3 (llwyd)
- City & Guilds – Cynigir gan City & Guilds
- cbac wjec – Cynigir gan CBAC

# Cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Rydych chi'n gweithio tuag at y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion a gyflogir yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sy'n bwriadu symud ymlaen i rôl reoli, boed yn awr neu yn y dyfodol. Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio am dâl neu'n ddi-dâl, neu sydd â mynediad at y lleoliad gwaith canlynol:

- lleoliadau gofal plant a reoleiddir gyda phlant dan 8 oed a'u teuluoedd
- gwasanaethau plant y GIG i'r rhai sy'n gweithio â phlant rhwng 0 a 19 oed a'u teuluoedd.

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Lluniwyd y cymhwyster hwn er mwyn i ddysgwyr feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth allweddol sy'n sail i arwain a rheoli yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Nid yw'r Consortiwm yn pennu gofynion cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn; fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gennych chi'r potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'r cyfle i wneud hynny.  Efallai y byddai'n fuddiol i chi fod wedi cwblhau Cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd** cyn y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, ond nid yw hyn yn hanfodol.

# Nodau ac amcanion

Bydd y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli
- deall arddulliau arwain a rheoli gwahanol a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer mewn gwasanaethau
- deall sut i arwain dulliau plentyn-ganolog wrth ymarfer
- gallu gweithio fel dysgwr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data
- gwybod sut i arwain, rheoli a gwella gwasanaeth yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

# Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen?

Erbyn diwedd eich cymhwyster, byddwch wedi ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol sydd eu hangen arnoch i gefnogi symud ymlaen i'r cymhwyster **Lefel 5: Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** neu gyflogaeth yn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar. Fodd bynnag, nid yw symud ymlaen yn awtomatig; **RHAID** i chi fod mewn swydd berthnasol cyn symud ymlaen.

## Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod?

Mae cynnwys y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr y gweithle ar draws y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar.

Mae'n debygol y bydd eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn eich ardal a byddant wedi datblygu rhaglen astudio i sicrhau bod yr holl ofynion cymhwyster yn cael eu bodloni'n llawn. Gall eich dysgu ddigwydd mewn amgylchedd strwythuredig iawn, e.e. mewn ystafell ddosbarth traddodiadol, neu drwy ddull mwy cymysg sy'n cynnwys dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein. Fel arall, efallai y cewch gymorth i ddysgu yn y gwaith ac i ymgymryd â rhywfaint o astudio hunangyfeiriedig. Pa bynnag ddull dysgu a ddilynir, rydym wedi darparu rhai adnoddau cefnogol a fydd yn eich helpu ar hyd y ffordd.

P'un a ydych yn yr ysgol, yn y coleg neu'n cael eich cefnogi gan ddarparwr yn y gweithle, mae'n debygol y bydd angen i chi ddysgu gwybodaeth sy'n newydd i chi. Mae nifer o ffactorau gwahanol yn dylanwadu ar sut rydych chi'n dysgu, gan gynnwys beth sy'n eich cymell a pha fath o amgylchedd sydd ei angen arnoch. Bydd eich tiwtor/athro/aseswr am weithio gyda chi i ddarganfod sut y gallan nhw eich cefnogi i ddysgu'n effeithiol – cyfeirir at hyn yn aml fel eich **'hoff' ddull dysgu** (gweler tudalen 39 am fwy o wybodaeth am 'hoff' ddulliau dysgu).

# Strwythur y cymhwyster

Mae'r cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** yn cynnwys y tair uned orfodol ganlynol:

- Uned 405: Arwain ymarfer plentyn-ganolog
- Uned 406: Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli
- Uned 407: Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol.

| | | |
|---|---|---|
| Lleiafswm oriau dysgu dan arweiniad | 335 awr | Lleiafswm oriau dysgu dan arweiniad yw faint o amser dysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sydd ei angen i gyflwyno'r cymhwyster a gellir ei ddefnyddio at bwrpasau cynllunio. |
| Cyfanswm amser y cymhwyster | 600 awr | Dyma gyfanswm yr amser y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. |


Y prif ddulliau asesu yn y cymhwyster hwn fydd trwy gyfres o dasgau strwythuredig a asesir yn allanol ac yn fewnol, gan gynnwys:

- gwerthuso a chynllun project
- ymatebion ysgrifenedig
- asesiad llafar.

Cynlluniwyd y gweithgareddau asesu hyn i alluogi casglu tystiolaeth cyfannol. Byddant yn eich cynorthwyo i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws gwahanol unedau a deilliannau dysgu yn yr un gweithgaredd. Bydd hyn yn lleihau unrhyw achosion o ailadrodd asesiadau.

# Beth yw uned?

Mae'r holl wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer sydd eu hangen ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u trefnu mewn unedau – fel penodau mewn llyfr. Dangosir y cynllun i'r unedau a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn isod ac rydym wedi nodi rhai agweddau ac iaith allweddol y byddwch yn dod yn fwy a mwy cyfarwydd â nhw wrth i chi symud ymlaen drwy eich taith ddysgu ac asesu.




**Uned 405** **Arwain Ymarfer Plentyn-ganolog**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 115 |
| **Credyd:** | 22 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i arwain ymarfer plentyn-ganolog. At bwrpas yr uned hon mae "Arweinydd" yn cyfeirio at y rheini â llwyth achosion dirprwyedig neu raglen grŵp, yn gweithio'n ymreolus o fewn protocolau cytûn. Gall hyn fod ar gyfer pobl sy'n gweithio 1:1 neu mewn grŵp. |

Deilliant dysgu:

1. Deall datblygiad dulliau seiliedig ar hawliau a sut mae'r rhain yn parhau i ddatblygu ac yn dylanwadu ar ymarfer plentyn-ganolog

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Y ffordd y mae dulliau gweithred… iliedig ar hawliau ar gyfer plant:
- wedi datblygu dros amser
- yn rhan annatod o gonfensiynau, deddfwriaeth, ffra… ithiau rheoleiddio a Pholisi Llywodraeth Cymru

1.2 Llywio ymarfer lleol a dylanwadu arno

Deilliant dysgu:

2. Deall sut i hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Deddfwriaeth a pholisi sy'n cefnogi tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
2.2 Y ffordd y mae ymddygiadau a gwerthoedd yn y gweithle/lleoliad yn hybu tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
2.3 Effaith gwahaniaethu, stereoteipio, rhagfarn ac anghydbwysedd o ran pŵer ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

24
Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Llawlyfr y Cymhwyster

## Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am bob uned?

Ar ddiwedd pob uned rydym wedi darparu arweiniad pellach a bydd eich tiwtor/hyfforddwr/aseswr yn cyfeirio at y rhain i lywio eu gwaith o addysgu, dysgu ac asesu. Dangosir y 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer uned 406 yma. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi edrych ar Ganllawiau Cyflwyno pob uned yn y cymhwyster hwn. Gellir dod o hyd i rhain yn **Llawlyfr y Cymhwyster**.

**Uned 406** **Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli**

Gwybodaeth Ategol

***Canllawiau cyflwyno***

Anogir dysgwyr i fyfyrio ar eu gweithle/lleoliad gwaith eu hunain a chyfeirio ato yn ystod y broses o gyflwyno cynnwys yr uned hon.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| DD1 | **Amcanion thema**<br>• Cyflwyniad i ddamcaniaethau, modelau a fframweithiau arwain, rheoli, newid ac arloesi |
| 1.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Ystyr y termau canlynol: arwain; rheoli ac arloesi, a rheoli newid<br>• Damcaniaethau arwain<br>• Arddulliau arwain<br>• Damcaniaethau ac adnoddau ar gyfer rheoli newid – i gynnwys arloesi<br>• Modelau rheoli rhaglenni a phrojectau |
| | **Canllawiau cyflwyno**<br>Dylid defnyddio damcaniaethau a modelau i roi'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar ddysgwyr ar gyfer yr uned hon. |
| 1.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Diwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth foesegol<br>• Rôl arweinwyr a rheolwyr wrth arwain gwaith arloesi a newid |
| DD2 | **Amcanion thema:**<br>• Rydych yn deall y broses barhaus o wella gwasanaeth a sut dylai adborth ddylanwadu ar hyn |
| 2.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Cylch hunanasesu – Pwysigrwydd nodi a chydnabod yn gyson ymarfer dyddiol parhaus er mwyn gwella canlyniadau i blant |

36
Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Llawlyfr y Cymhwyster

| | |
|---|---|
| | **Canllawiau cyflwyno**<br>Gwerthfawrogi a defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth |
| 2.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Canllawiau hunanasesu, AGC, Estyn ac AGIC |
| 2.5 | **Canllawiau cyflwyno**<br>Dylai pryderon ymdrin ag amrywiaeth o bryderon sy'n berthnasol i leoliadau gofal plant, er enghraifft:<br>Dadansoddi damweiniau, digwyddiadau, gwybodaeth a dderbynnir |
| DD3 | **Amcanion thema:**<br>• Sut i reoli arloesedd a newid<br>• Pam y gall staff/teuluoedd/gofalwyr ymwrthod ag arloesedd a newid<br>• Dulliau damcaniaethol ac ymarferol o arwain arloesedd a newid<br>• Gweithio mewn partneriaeth er mwyn rheoli arloesedd a newid<br>• Sut gellir defnyddio dulliau rheoli projectau er mwyn rheoli newid. |
| 3.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Damcaniaethau ar ymwrthod â newid<br>• Modelau newid fesul cam<br>• 'Pum rheswm pam' dros brosesau newid |
| | Adnoddau:<br>Acas: Sut i reoli newid<br>**http://www.acas.org.uk/media/pdf/q/q/Acas-How-to-manage-change-advisory-booklet.pdf**<br>Adnoddau Dysgu Academi Wales<br>**https://academiwales.gov.wales/Repository/tree?sort=recommendation&language=cy** |

***Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig***

- **SCDLMC A1:** Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu
- **SCDLMC A2:** Arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A3:** Mynd ati i ddewis a recriwtio gweithwyr mewn modd diogel a'u cadw yn y gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A5:** Rheoli dyraniad, cynnydd a chydraddoldeb gwaith mewn darpariaeth gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E2:** Arwain y broses o reoli perfformiad darpariaeth gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E10:** Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal

***Deddfwriaeth gysylltiedig***

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
- www.nice.org.uk/guidance

Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Llawlyfr y Cymhwyster
37

# Pa feysydd pwnc y byddaf yn dysgu amdanynt?

Mae pob un o'r unedau yn y cymhwyster yn cynnwys meysydd dysgu sy'n cysylltu â theitl pob uned. Fel y dangosir ar y dudalen flaenorol, caiff y rhain eu cyflwyno mewn Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Asesu. Ceir trosolwg o bob uned yn y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** isod:

| UNEDAU GORFODOL | |
|---|---|
| **Uned** | **Crynodeb o'r Uned** |
| Uned 405: Arwain ymarfer plentyn-ganolog | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i arwain ymarfer plentyn-ganolog.<br><br>At bwrpas yr uned hon mae 'Arweinydd' yn cyfeirio at y rheini â llwyth achosion dirprwyedig neu raglen grŵp, yn gweithio'n ymreolus o fewn protocolau cytûn. Gall hyn fod ar gyfer pobl sy'n gweithio 1:1 neu mewn grŵp. |
| Uned 406: Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli | Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i amrywiaeth o fframweithiau damcaniaethol a deall sut gellir defnyddio'r fframweithiau hyn er mwyn cefnogi arloesedd, newid a gwella ansawdd o fewn prosesau arwain a rheoli lleoliadau gofal plant.<br><br>Mae'n cynnwys testunau dysgu megis dulliau damcaniaethol, hunanasesiad o'r gwasanaeth a gwerthusiad, rheoli arloesi a newid. |
| Uned 407: Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | Nod yr uned hon yw rhoi cyflwyniad i ddysgwyr i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol; gan gynnwys pwysigrwydd prosesau recriwtio a sefydlu yn seiliedig ar werthoedd.<br><br>Mae'n cynnwys testunau dysgu megis cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, pwysigrwydd y Gymraeg, pwysigrwydd recriwtio ar sail gwerthoedd a sut i reoli gwrthdaro tîm a pherfformiad gwael. |

# Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i ennill y cymhwyster hwn?

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- gweithio'n agos gyda'ch **tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr**
- bod yn barod i ddysgu am bethau newydd sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant a chael profiadau ohonynt
- paratoi ar gyfer asesiadau a'u cwblhau – mae mwy o wybodaeth am asesu ar dudalen 24-27.

Drwy gydol y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, byddwch yn dod i gysylltiad â, ac yn cael eich cefnogi gan, bobl mewn amrywiaeth o rolau gwahanol:

| ROLAU | CWMPAS A SWYDDOGAETH |
|---|---|
| Tiwtor | darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor hwyluso'r broses asesu. |
| Aseswr mewnol | aseswr cymwysedig – yr aseswr mewnol fydd yn gyfrifol am bennu canlyniad y tasgau yn Adran 1 ac Adran 3 gan ddefnyddio meini prawf llwyddo a osodwyd yn allanol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol | sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol | yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cyflwyno ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds. |
| Aseswr Allanol City & Guilds* | aseswr cymwysedig sy'n gyfrifol am bennu'r dyfarniad asesu terfynol ar gyfer tasgau asesu Adran 2, sy'n ymdrin ag uned 405. |
| Aseswr Arweiniol City & Guilds* | bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r dyfarniad asesu a bennir gan aseswyr allanol. |

*** Penodir y rolau hyn gan City-Guilds – mae'n bosib y byddwch yn cwrdd â'r bobl hyn tuag at ddiwedd eich cymhwyster.**

# Ffocws ar arweinyddiaeth

Drwy gydol y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** canolbwyntir ar ddatblygu eich dealltwriaeth o sgiliau arwain a rheoli, fel y gallwch ddangos sut yr ydych yn 'deall' ac yn 'gwybod sut i...' arwain a rheoli tîm o fewn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r rhan fwyaf o'r unedau'n canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth o sut i arwain a rheoli, yn hytrach na chefnogi a hyrwyddo.

| | | |
|---|---|---|
| e.e. | Uned 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog. |
| | Uned 406 | Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli. |

O ganlyniad, mae llawer o'r deilliannau dysgu drwy gydol y cymhwyster yn gofyn i chi ddeall eich rôl ar lefel uwch o gyfrifoldeb.

| | | |
|---|---|---|
| e.e. | Uned 406 | Deilliant dysgu 3 – Deall sut i reoli arloesi a newid. |
| | Uned 407 | Deilliant dysgu 3 - Deall dulliau, sgiliau a phriodweddau ar gyfer arwain a rheoli timau'n effeithiol. |

Dangosir hyn hefyd mewn llawer o feini prawf asesu.

| | | |
|---|---|---|
| e.e. | Uned 405 | maen prawf asesu 5.7 – Rydych yn deall sut i arwain amgylchedd sy'n hybu diogelu. |
| | Uned 407 | maen prawf asesu 1.1 – Rydych yn deall sut i ddefnyddio dulliau er mwyn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth arwain a rheoli gweithwyr. |

# Ymgysylltu â chyflogwyr

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, nid oes angen bod yn weithiwr wedi'i gyflogi'n bresennol yn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar, naill ai mewn swydd â thâl neu'n ddi-dâl. Fodd bynnag, os ydych yn gyflogedig, mae'r cymhwyster yn rhoi cyfle i'ch cyflogwr gymryd rhan flaenllaw iawn yn eich dysgu, datblygiad a chynnydd drwy gydol eich cymhwyster ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei annog a'i gefnogi'n gryf.

# Beth yw mentor yn y gweithle?

Efallai y bydd mentor yn y gweithle yn cael ei benodi ar eich cyfer gan eich cyflogwr. Nid ydynt yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond mae rhai cyflogwyr a darparwyr yn cydnabod bod ganddynt rôl bwysig mewn dysgu ac asesu yn y gweithle. Bydd mentor yn y gweithle yn eich helpu i wneud cysylltiadau rhwng yr hyn rydych yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a sut mae hyn yn berthnasol i'r byd gwaith. Efallai byddan nhw hefyd yn eich helpu i nodi a gwneud y defnydd gorau o unrhyw gyfleoedd dysgu sy'n codi wrth i chi weithio. Mae'n bosibl hefyd y bydd eich aseswr mewnol yn rhoi cymorth mentora i chi drwy gydol y cymhwyster hwn.

# Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster?

**Cam 1 – Cyn cyflwyno**

- Ymrestru cychwynnol a sefydlu

**Cam 2 – Cyfnod dysgu**

- Cyfnod dysgu ffurfiol
- Mynediad at asesiad crynodol

**Cam 3 – Cyfnod asesu crynodol**

- Fydd y cymhwyster yn cael ei asesu trwy gyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol

**Cam 4 – Cwblhau**

- Cyflwyno graddau asesu i City & Guilds
- Cadarnhad o'r penderfyniad

*Ailadroddir camau 2 a 3 ar gyfer pob uned o'r cymhwyster.

Cam 1 – Cyn cyflwyno

1

- **Asesu cychwynnol a sefydlu**

Byddwch yn cwblhau asesiad cychwynnol cyn i chi gychwyn ar eich rhaglen i nodi:

- a oes gennych unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arnoch wrth weithio tuag at eich cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir bod canolfannau'n cynnig rhaglen sefydlu fel eich bod yn deall gofynion y cymhwyster, eich cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu. Mae'n wirioneddol fuddiol i'ch rheolwr gymryd rhan yn y drafodaeth hon neu gyfrannu ati.

Byddai'n ddefnyddiol trafod gyda'ch tiwtor/aseswr yr hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni drwy'r cymhwyster hwn, a byddai'n werth cwblhau datganiad personol ar ddechrau'r rhaglen, ble'r rydych yn ystyried eich nodau eich hun o ran yr hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni drwy gwblhau'r rhaglen, a chanolbwyntio ar y rhain drwy gydol y broses gyflwyno.

Efallai y bydd eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle yn gofyn i chi ymgymryd â dysgu ychwanegol sy'n canolbwyntio ar yr ystod ehangach o sgiliau y gall fod eu hangen arnoch er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, e.e. cyflwyniad ar sgiliau ymchwil ac astudio. Bydd cyflwyniad i'r sgiliau hyn o fantais fawr er mwyn eich cefnogi drwy'r broses gyflwyno, tasgau asesu a sefydlu profiad dysgu wedi'i gyfoethogi.

## Pa unedau y byddaf yn eu cwblhau?

Er mwyn ennill y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** rhaid i chi gwblhau'r tair uned gorfodol.  Mae'r unedau hyn yn gyfwerth â chyfanswm o 60 credyd.

# Beth yw credydau?

Rydym wedi dyfarnu gwerth credyd i bob uned. Mae'r credydau a ddyfernir i uned yn adlewyrchu lefel a maint y wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau a'r arfer a fydd yn cael eu cyflawni drwy gwblhau'r uned. Er mwyn cyflawni'r cymhwyster, **rhaid** i chi gyflawni **o leiaf** 60 credyd.

## Arwain Ymarfer Plentyn-ganolog

**Uned 405**
115 ODA/22 Credyd
6 Deilliant Dysgu

**Nod yr uned:**

Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i arwain ymarfer plentyn-ganolog.

At bwrpas yr uned hon mae "Arweinydd" yn cyfeirio at y rheini â llwyth achosion dirprwyedig neu raglen grŵp, yn gweithio'n ymreolus o fewn protocolau cytûn. Gall hyn fod ar gyfer pobl sy'n gweithio 1:1 neu mewn grŵp.

## Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli

**Uned 406**
120 ODA/20 Credyd
3 Deilliant Dysgu

**Nod yr uned:**

Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i amrywiaeth o fframweithiau damcaniaethol a deall sut gellir defnyddio'r fframweithiau hyn er mwyn cefnogi arloesedd, newid a gwella ansawdd o fewn prosesau arwain a rheoli lleoliadau gofal plant.

## Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

**Uned 407**
100 ODAH/18 Credyd
8 Deilliant Dysgu

**Nod yr uned:**

Nod yr uned hon yw rhoi cyflwyniad i ddysgwyr i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol; gan gynnwys pwysigrwydd prosesau recriwtio a sefydlu yn seiliedig ar werthoedd.

- **Cyfnod dysgu ffurfiod**

*Gallai hyn gynnwys astudio annibynnol, gweithgareddau gweithgareddau mewn ystafell ddosbarth a/neu dysgu yn gwaith*

- **Mynediad at asesiad crynodol**

*Yn dilyn dysgu, byddwch yn trafod ac yn cytuno gyda'ch aseswr ynghylch eich parodrwydd ar gyfer asesiad*

**Asesiad cychwynnol cadarn a sefydlu**

**Cyd-destun trosglwyddo'r wybodaeth**

Byddwch yn ymateb i wybodaeth a dealltwriaeth newydd os yw'n berthnasol i'ch cyd-destun cyflogaeth bresennol, neu i brofiad gwaith blaenorol yr ydych wedi'i gael yn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar.

**Mewnblannu cynnwys sylfaenol**

Er enghraifft, yn ystod sesiwn gallai'r canlynol ddigwydd i chi:

- cael eich cyflwyno i brif destun y sesiwn
- cymryd rhan mewn trafodaeth i archwilio eich dealltwriaeth a/neu wybodaeth bresennol.
- ailedrych ar hyn a'i gymhathu mewn sesiynau yn y dyfodol.

**Cadarnhau a herio – myfyrio yn ystod ac ar ôl ymarfer**

- A fyddech chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol?
- Pe bae chi'n gallu newid un peth, beth fyddai hwnnw?
- A gawsoch eich synnu gan unrhyw beth yr ydych wedi'i ddysgu?
- Beth ydych chi'n ei wybod nawr nad oeddech chi'n ei wybod o'r blaen?

**Mynediad at asesiad crynodol**

Byddwch yn trafod eich parodrwydd ar gyfer asesiad gyda'ch aseswr.

Dylid addysgu pob uned yn eu trefn gydag asesiad crynodol i ddilyn. Ailadroddir y broses hon hyd nes y bydd pob un o'r tair uned wedi'u haddysgu a'u hasesu.

Bydd eich tiwtor yn eich cefnogi a'ch arwain a bydd yn eich helpu i ddysgu am yr holl bethau pwysig y mae angen i chi eu gwybod er mwyn arwain a rheoli yn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar. Bydd eich tiwtor/athro yn defnyddio adnoddau dysgu a thechnegau addysgu sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i baratoi ar gyfer asesiad.

## Parodrwydd ar gyfer asesiad – dangos cymhwysedd

Mae'n bwysig sicrhau mai dim ond pan fydd y rheolwr a'r aseswr mewnol yn hyderus eich bod yn ddigon cymwys i gwblhau'r asesiad y dylech gael eich cyflwyno ar gyfer asesiad. Bydd eich tiwtor/aseswr mewnol yn rhyddhau tasgau unigol i chi ar adeg addas yn dilyn cyflwyno'r cynnwys, ac ar amser pan fydd eich tiwtor/aseswr mewnol yn hyderus eich bod yn sicr o'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth i gwblhau'r dasg asesu.

## Rhyddhau'r dasg

Ar ôl i chi gael eich ystyried yn barod ar gyfer eich asesiad, bydd eich tiwtor/aseswr mewnol yn rhyddhau'r dasg asesu i chi. **Rhaid** i'r tiwtor/aseswr mewnol beidio â rhyddhau'r holl dasgau asesu ar yr un pryd.

Dylai eich tiwtor/aseswr mewnol drafod a chytuno ar amserlen gwblhau ar gyfer y tasgau gyda chi, gan ystyried ei raglen gyflawni a'ch gallu i gyflawni pob un o'r tasgau yn llwyddiannus o fewn y cyfnod asesu. Dylid gosod dyddiadau cyflwyno ar gyfer tasgau asesu fel **nad ydynt** yn gorgyffwrdd, h.y. dylech gael cyfnod penodol o amser i ymateb i bob tasg.

Mae'n ofynnol i chi gynllunio eich gwaith a'ch gweithgareddau; rhaid i'ch cynlluniau gael eu cadarnhau gan diwtor/aseswr mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn addas.  Yn dilyn y drafodaeth hon a'r cytundeb, mae'n rhaid i'r tiwtor/aseswr mewnol roi amserlen gynlluniedig ar gyfer cwblhau pob tasg i chi, gyda dyddiadau cyflwyno clir. Byddwch yn cyflwyno'r dasg fel eich gwaith terfynol.

# Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol

3

- **Rhaid i ddysgwyr asesiad allanol gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:**

*Project sy'n cynnwys cyfres o dasgau, yn seiliedig ar newid arfaethedig i ymarfer*

- **Rhaid i ddysgwyr asesiad mewnol gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:**

*Cyfres o dasgau sy'n cynnwys ymatebion llafar ac ysgrifenedig*

# Sut bydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu?

Asesir y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** drwy gyfres o dasgau a osodir yn allanol. Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r holl raddau asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster cyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus.

| UNED | TEITL | TASG | GWEITHGAREDD | ASESIAD |
|---|---|---|---|---|
| Uned 405 | Arwain ymarfer plentyn-ganolog | Tasg A<br>Tasg B | (i) Dogfen wybodaeth<br>(ii) tasg ysgrifenedig<br>(i) amlinellu a gwerthuso<br>(ii) cynllun y project | Pob un wedi'u hasesu'n allanol gan y Corff Dyfarnu |
| Uned 406 | Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli | Tasg C<br>Tasg Ch | Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau<br>Deunyddiau sesiwn hyfforddi | Wedi'i asesu'n fewnol gan yr aseswr mewnol |
| Uned 407 | Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | Tasg D<br>Tasg Dd<br>Tasg E | Ymateb ysgrifenedig<br>Asesiad llafar (60 munud yn annibynnol + 30 munud o drafodaeth)<br>Ymateb ysgrifenedig* | Wedi'i asesu'n fewnol gan yr aseswr mewnol |

Dylid rhyddhau tasgau yn eu trefn, NID y cyfan ar unwaith, gyda chyfnod diffiniedig wedi'i gytuno i ymateb i bob tasg

Defnyddio adnoddau a chyfeiriadau allanol – darparwyd canllawiau clir ar gyfeirio yn y pecyn asesu

*Dylid cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ffurf electronig, wedi'u teipio. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu gwaith yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.

## Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?


Cynlluniwyd y tasgau asesu ar gyfer y cymhwyster hwn i roi'r cyfle i chi ddangos y wybodaeth a dealltwriaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth yng nghyd-destun sefyllfaoedd gwaith go iawn mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae'r tasgau'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y ffordd y byddech yn ymddwyn mewn rôl arwain a rheoli, a dylech ymgymryd â'r tasgau o'r safbwynt hwn, gan gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'u meithrin o'ch rhaglen ddysgu i ymateb i'r tasgau.

Lle bo'n bosibl, cewch eich annog i ddefnyddio eich profiad a'ch myfyrdodau eich hunain o brofiad presennol a blaenorol o weithio yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant er mwyn ategu eich ymatebion.

Os byddwch chi'n cyfeirio at unrhyw brofiadau presennol neu flaenorol sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant, teuluoedd/gofalwyr neu eraill, mae'n rhaid i chi sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw unigolion na sefydliadau/lleoliadau rydych chi'n cyfeirio atyn nhw ym mhob un o'ch tasgau asesu. Dylai hyn gynnwys gofalu nad ydych chi'n defnyddio cyfeiriadau neu wybodaeth benodol a allai, yn awtomatig, ei gwneud yn hawdd adnabod sefydliad/lleoliad, unigolyn a gefnogir, neu unigolyn arall.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus.

# Crynodeb o'r asesiad ar gyfer Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant



## Beth yw asesiad llafar?

Byddwch yn cwblhau asesiad llafar gyda'ch aseswr mewnol. Bydd eich aseswr yn rhoi senario i chi y bydd angen i chi ei ddarllen a'i ystyried. Byddwch chi hefyd yn darllen nifer o adroddiadau gan unigolion mewn perthynas â'r senario. Yna, bydd angen i chi ddrafftio eich ymatebion i wahanol gwestiynau a rhoi eich atebion ar lafar i'ch aseswr.

## Yn ystod yr asesiad llafar

Bydd eich aseswr yn gwneud nodiadau i gasglu eich ymatebion. Dylai'r drafodaeth deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn eich galluogi chi i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen i holi am fwy o wybodaeth neu i egluro pwyntiau, cwestiynau fel:
  - 'Pam roeddech chi'n meddwl hynny?'
  - 'Sut gwnaethoch chi ddod i'r casgliad hwnnw?'
- crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau bod yr aseswr wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir.

## Amseriadau

Ar ôl rhyddhau'r dasg, mae gennych hyd at **60 munud** o amser paratoi i ymateb i'r cwestiynau.

Yna, bydd gennych hyd at **30 munud** gyda'ch aseswr i drafod eich ymatebion ar lafar.

## Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod hyn gyda chi a'ch cael i gytuno cyn dechrau.

# Cefnogi'r broses asesu

## Adnoddau

Ar gyfer y tasgau asesu sy'n gofyn am ymatebion ysgrifenedig, disgwylir bod gan yr ymgeisydd fynediad i offer TG a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol er mwyn cwblhau'r tasgau. Disgwylir i chi gynhyrchu ymatebion wedi'u teipio ar gyfer eich gwaith ysgrifenedig.

- Rhaid sicrhau bod gan dystiolaeth eich enw a llofnod/e-lofnod a'r dyddiad y cynhyrchwyd y dystiolaeth ar frig pob tudalen.
- Rhaid cyfeirio pob darn o dystiolaeth at y dasg y mae'n cyfateb iddi, unai ar ffurflen gyfeirnod y dystiolaeth neu yn y pennyn.
- Rhaid i bob darn o waith fod yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.
- Lle y bo'n berthnasol, gallwch chi ddefnyddio a chyfeirio at adnoddau allanol drwy gydol y tasgau asesu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi nodi'n glir unrhyw adnoddau allanol rydych chi wedi cyfeirio atyn nhw neu wedi'u defnyddio fel rhan o'ch ymatebion. Mae adran ***'Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad'*** pob tasg yn nodi'n glir lle mae'n rhaid darparu rhestr gyfeirio os ydych chi wedi defnyddio adnoddau allanol fel rhan o'ch ymateb i'r dasg.

## Cefnogaeth ac adborth

- Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i chi o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau.
- Dylai'r tiwtor/aseswr sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ystod eich gwaith ysgrifenedig.
- Dylent sicrhau nad ydych yn **cael eich arwain, nac yn cael gwybod beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n eich hatal rhag gallu dangos eich proses ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn annibynnol**.

- **Graddau asesu a gyflwynir i City & Guilds**
- **Cadarnhad o’r penderfyniad**

*Rydych yn cael gwybod am ganlyniad yr asesiad*

*Os na chyflawnwyd yr asesiad, amlinellir y rhesymau dros y canlyniad hwn – a rhoddir adborth ar yr hyn sydd angen ei wneud nesaf*

## Dyfarnu'r cymhwyster

Asesir y cymhwyster drwy gyfres o dasgau a osodir yn allanol:

Asesir **Adran 1** (Tasgau A – B) gan aseswr allanol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Asesir **Adran 2** (Tasgau C – Ch) yn fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Asesir **Adran 3** (Tasgau D – E) yn fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus.

## Ailgyflwyno

Caniateir i chi ailsefyll y dasg os ydych yn methu â bodloni'r meini prawf gofynnol i lwyddo mewn unrhyw dasg asesu. Pan fydd gofyn i chi ailsefyll y dasg, bydd eich aseswr yn rhoi adborth i chi. Gall yr adborth hwn eich cyfeirio at weithgaredd adferol i gefnogi datblygiad unrhyw ddiffygion yn eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth. Dylech hefyd dderbyn arweiniad ar sut y dylai eich ail gynnig fod yn wahanol i'ch ymateb gwreiddiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gofyn i chi edrych ar y dasg o safbwynt gwahanol, naill ai drwy gyfeirio at senario neu enghraifft wahanol, er mwyn dangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth ddatblygedig. Ar gyfer tasgau wedi'u hasesu'n allanol, bydd yr aseswr allanol yn darparu adborth lefel uchel i'ch tiwtor/aseswr mewnol, a dylid defnyddio'r adborth hwnnw i ategu unrhyw weithgaredd ychwanegol fydd ei angen er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu eich gwybodaeth a dealltwriaeth cyn ailsefyll y dasg/tasgau.

## Sut ydw i'n cael fy nhystysgrif?

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus. Pan fydd yr holl dasgau wedi'u cwblhau i fodloni gofynion y cymhwyster, bydd y Corff Dyfarnu yn cyflawni nifer o'u harchwiliadau eu hunain er mwyn sicrhau ansawdd. Bydd eich tystiolaeth yn cael ei dilysu'n fewnol gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA) a nodir gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle, a bydd ar gael i'w wirio'n allanol gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA) a ddyrennir gan y Corff Dyfarnu. Os bydd pawb yn cytuno â phenderfyniad eich aseswyr, caiff eich tystysgrif ei dosbarthu.



# Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Efallai y bydd modd i chi wneud cais am gymorth ychwanegol yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd angen i chi fodloni meini prawf penodol a gall y broses gymryd peth amser i'w threfnu, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad â'ch tiwtor/athro/hyfforddwr neu aseswr cyn gynted ag y gallwch, fel y gallant wneud trefniadau. Nid yw pob cais am gymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth benodol i helpu i wneud y penderfyniad cywir.

**COFIWCH** –Cyn gwneud asesiad mae'n bwysig bod yn hyderus eich bod yn barod. Bydd eich tiwtor/athro/aseswr yn eich helpu i adnabod pan fyddwch wedi cyrraedd y pwynt hwn. Drwy'r cyfnod dysgu dylech gael cyfleoedd i ymarfer gweithio gydag unigolion yn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar. Edrychwch ar yr adnoddau dysgu ar y gwefannau canlynol:

Dysgu Iechyd a Gofal Cymru:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cymwysterau-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant



# Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau?

Dylech ddechrau paratoi ar gyfer eich asesiadau cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ar eich cymhwyster. Po gynharaf y byddwch yn dechrau arfer da o ran astudio, y lleiaf o straen y bydd yr astudio i chi. Mae astudio'n llwyddiannus yn gofyn am sgiliau trefnu a rheoli amser da, ond mae angen i chi fod yn realistig hefyd. Os ydych yn gweithio yn ogystal â mynychu'r ysgol neu'r coleg, neu os ydych yn cwblhau rhaglen yn y gwaith, fel prentisiaeth, bydd angen i chi gynllunio amser i astudio. Byddwch yn falch eich bod yn astudio a gadewch i'ch ffrindiau a'ch teulu wybod y byddwch chi angen, ac yn disgwyl, eu cefnogaeth.

Mae rhai pobl yn ei chael hi'n haws i astudio ben bore ac mae'n well gan eraill astudio'n hwyrach yn y dydd, ond ni waeth faint o'r gloch yw hi, mae astudio'n llawer haws ac yn fwy llwyddiannus pan mae gennych chi le tawel a chyfforddus sy'n olau ac sy'n cael digon o awyr, lle mae rhywle i chi ysgrifennu a darllen.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar y gwefannau canlynol a fydd yn eich helpu i astudio:

**ADNODDAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU**

https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dogfennau

**ADNODDAU DYSGU DIGIDOL**

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Mae llawer o adnoddau a gwrthrychau sy'n gallu eich helpu i astudio:

- gall ysgrifennu gydag ysgrifbinnau lliwgar eich helpu i amlygu geiriau neu ymadroddion allweddol pan fyddwch yn adolygu
- gall crynhoi eich nodiadau eich helpu i drefnu eich dysgu a lleihau ailadrodd
- gweithio gydag eraill mewn grwpiau bach – mae rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth a phrofi eich gilydd yn hynod werthfawr
- cymryd egwyl yn rheolaidd – gall awyr iach ac ymarfer corff roi hwb egni i chi a'ch helpu i barhau i ganolbwyntio
- ceisio osgoi'r cyfryngau cymdeithasol – sicrhewch bod eich ffôn ar y gosodiad 'tawel' neu, yn well fyth, diffoddwch ef.

**COFIWCH** na allwch astudio'n dda os ydych wedi blino, dan ormod o straen neu ar frys. Mae cynllunio a bod yn benderfynol yn allweddol!

# Symud ymlaen – beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

**Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant (cymhwysedd)**

**Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (gwybodaeth)**

**Rhagofyniad**

**Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer (cymhwysedd)**

**Mae cynllun a disgwyliadau'r cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 yn galluogi cyfleoedd dilyniant fertigol a llorweddol.**

# Symud Ymlaen Mewn Cyflogaeth

Unwaith y byddwch yn gweithio, efallai y bydd cyfleoedd pellach i symud ymlaen i rolau lefel 4 neu, ar ôl i chi gael mwy o brofiad a hyder, i ddatblygu eich potensial arwain a rheoli. Mae'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** wedi'i chynllunio i adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y byddwch wedi'u datblygu ar Lefel 4. Bydd y rhain yn eich helpu i ddatblygu eich gyrfa ac fe'u cynlluniwyd i gefnogi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau datblygu sydd eu hangen i ***arwain a rheoli gwasanaethau***.

Er mwyn symud ymlaen i'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, sy'n ofynnol er mwyn rheoli gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r sector gofal plant a reoleiddir, rhaid i chi yn gyntaf fod wedi cwblhau **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** (ar gael Medi 2020).

**LEFEL 5 ARWAIN A RHEOLI GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT**
(AR GAEL MEDI 2020)

Bydd y cymhwyster hwn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgoch ar Lefel 4 ac yn rhoi cyfle i'ch gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau gael eu hasesu. Er mwyn cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, rhaid i chi fod yn gweithio ar Lefel 5 a gallu dangos eich bod wedi dod yn arweinydd ac yn rheolwr cymwys. Mewn rhai rhannau o'r sector gofal plant a reoleiddir, mae'n ofynnol meddu ar gymhwyster Lefel 5 cydnabyddedig. Mae **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** yn gymhwyster cydnabyddedig.

Os nad ydych yn gallu sicrhau swydd ar Lefel 5, bydd y gyfres newydd o gymwysterau yn eich galluogi i barhau â'ch datblygiad (a elwir yn ddilyniant llorweddol) ar Lefel 4. Mae'r gyfres yn cynnwys cymhwyster Lefel 4 newydd o'r enw Lefel 4 mewn Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant. Ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i gael rhagor o wybodaeth: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/

## Symud ymlaen ar draws y sector ehangach

Mae'r cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** yn rhan o gyfres fwy o gymwysterau, sydd wedi'u cynllunio i alluogi symud ymlaen yn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar, ac i rolau eraill yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach ac astudiaeth bellach neu hyfforddiant proffesiynol.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar Gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, efallai y byddwch yn penderfynu yr hoffech weithio gyda phlant hŷn neu gydag oedolion. Bydd y cymwysterau canlynol yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn rhannau eraill o'r sector ehangach ac, er nad yw'n hanfodol, gallant fod o gymorth i symud ymlaen i astudio pellach neu uwch:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc)
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol
- Lefel 4 Lleoliadau Oedolion/Cysylltu Bywydau
- Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster?

Mae cynnwys y cymhwyster hwn yn cynrychioli'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol ar Lefel 4 sy'n hanfodol ar gyfer gweithio mewn rôl arwain a rheoli yn y sector Plant a Blynyddoedd Cynnar. Disgwylir y bydd y dysgwyr yn cwblhau'r cymhwyster hwn cyn:

- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r holl gymwysterau newydd yn y gyfres yn gysylltiedig ag agweddau allweddol ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad plant, sy'n cael eu cydnabod gan reoleiddwyr y gweithlu a sefydliadau'r sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gynrychioli'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda phlant ifanc ledled y DU.

## Cyllid

Mae'r holl gymwysterau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn rhai y gellid eu hariannu yng Nghymru, gan gynnwys Prentisiaethau. Siaradwch â'ch ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle am gyfleoedd ariannu a all fod yn addas i'ch anghenion.

# Sut ydw i’n hoffi dysgu – Beth yw fy ‘hoff’ ddull dysgu?


Mae dysgu yn broses unigol iawn ac felly mae’n bwysig eich bod yn canolbwyntio ar sut y gallwch ddysgu a phrosesu gwybodaeth yn effeithiol, a sut y gall hyn gefnogi eich llwyddiant a’ch cynnydd. Mae’n bwysig eich bod yn dysgu’n effeithiol fel y gallwch chi adalw eich gwybodaeth newydd yn hawdd pan fydd angen.  Mae hyn yn golygu mwy na pherfformio’n dda yn eich asesiadau – mae’r un mor bwysig eich bod yn gallu adalw eich gwybodaeth pan fyddwch yn gweithio’n uniongyrchol gyda phlant ac eraill.  Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i ddatblygu a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl hoff ffordd o ddysgu, y gellir ei disgrifio’n fras gan un neu ddau o’r canlynol:

1. Gwneud
2. Meddwl
3. Teimlo
4. Gwylio.


Dros y blynyddoedd, mae cryn dipyn o fodelau neu ddamcaniaethau wedi’u datblygu i geisio’n helpu ni i gydnabod sut rydyn ni’n dysgu a pha fathau o bethau y gallai fod eu hangen ar unigolion gwahanol er mwyn gwneud dysgu’n haws ac yn fwy llwyddiannus. Dau o’r modelau mwyaf poblogaidd, neu’r rhai a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin, yw damcaniaeth dysgu arbrofol Kolb (1984) a damcaniaeth Honey a Mumford (1983) ar ddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod ‘profiadau’ yn ganolog i’r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithred – teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) ‘Experiential Learning experience as a source of learning and development’, New Jersey: Prentice Hall

Datblygodd Honey a Mumford ar ddamcaniaeth Kolb sy'n awgrymu bod pedwar math o ddulliau dysgu ac y bydd dull unigolyn o ddysgu yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan un neu ddau o'r rhain yn unig.




Pan gyflwynwyd y pwnc o 'hoff' ddulliau dysgu am y tro cyntaf fel ffordd o gefnogi dysgu effeithiol, roedd llawer yn credu mai dim ond mewn ffordd benodol yr oedd unigolion yn dysgu a bod hyn yn gymharol ddigyfnewid. Mae meddwl modern am 'hoff' ddulliau dysgu yn cydnabod na ddylid meddwl am y ffordd yr ydych yn mynd ati i ddysgu fel rhywbeth nad yw'n newid. Mae meddwl am sut mae'n well gennych chi ddysgu yn offeryn defnyddiol i'ch helpu i ystyried sut rydych chi'n ymateb yn wahanol i wybodaeth, yn dibynnu ar bethau fel sut rydych chi'n teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych chi ynddo, ac ati.

Os meddyliwch am y tro diwethaf y bu'n rhaid i chi ddysgu rhywbeth, efallai y byddwch yn gweld bod eich dull dewisol yn cyd-fynd ag un, neu ddau efallai, o'r categorïau canlynol:

| ARDDULL DYSGU | EFALLAI MAI HWN FYDD EICH HOFF ARDDULL DYSGU OS: | RYDYCH YN: | MATHAU O DDULLIAU DYSGU SY'N APELIO |
|---|---|---|---|
| GWEITHREDYDD | ydych chi'n hoffi dysgu drwy wneud. | frwdfrydig; yn tueddu i wneud pethau yn gyntaf ac ystyried wedyn; yn canolbwyntio ar y fan hyn a nawr. | Taflu syniadau, arbrofion ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau. |
| PRAGMATYDD | ydych chi'n hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu sut gallai pethau weithio yn y byd go iawn. | tueddu i sefyll yn ôl; yn ystyried pob ongl; yn tueddu i fod yn rhy ofalus. | Astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol yr hyn rydych chi'n ei ddysgu. |
| MYFYRIWR | ydych chi'n hoffi meddwl am beth rydych chi'n ei ddysgu. | hoffi rhoi cynnig ar bethau; yn mynd i weithredu'n gyflym ac yn hyderus; yn gallu bod yn ddiamynedd; yn ddatryswr problemau effeithiol. | Treulio amser yn darllen ynglŷn â phwnc a gwylio pobl eraill yn rhoi cynnig ar bethau. |
| DAMCANIAETHWR | ydych chi'n hoffi deall sut mae'r pethau newydd rydych chi'n eu dysgu'n ffitio yn eich 'model gwaith' neu 'fframwaith' ac mewn damcaniaethau blaenorol. | dda am addasu; yn hoffi dadansoddi, meddwl yn ddwfn am bethau; yn feddyliwr rhesymegol. | Modelau a damcaniaethau, gyda digonedd o wybodaeth gefndir. |

Os ydych yn meddwl am brofiadau dysgu eraill yr ydych wedi eu cael, efallai y byddwch yn sylwi eich bod wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd gennych chi fynediad at wahanol adnoddau, (2) roeddech yn teimlo'n hyderus, (3) roeddech yn gallu cymryd eich amser. Mae hyn oherwydd bod yr amgylchedd, sut rydych yn teimlo'n emosiynol, a'ch profiadau blaenorol o ddysgu yn gallu effeithio ar eich dull o ddysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu yn haws i chi a pha bryderon sydd gennych am ddechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd, os o gwbl.  Efallai y bydd eich tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr hefyd yn gallu eich helpu i gael cefnogaeth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i adnabod a deall yn well pa wahanol ddulliau o ddysgu sy'n gweithio orau i chi.